| Categorïau Archwilio | 2 (Gwyrdd) | 1 (Melyn) | 0 (Coch) | Sgôr | Sylwadau | Awgrymiadau ar gyfer gwella | Sgôr Newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. ATYNIAD - cynnal | Troetffyrdd wedi'u cynnal yn dda, dim problemau sylweddol wedi'u nodi. | Ychydig o sbwriel. Llystyfiant yn rhy hir. Celfi stryd â rhai diffygion bach (er enghraifft, paent yn pilio). | Sbwriel a/neu faw cŵn yn gyffredin. Llystyfiant wedi tyfu'n hir iawn, yn cynnwys canghennau isel. Celfi stryd mewn cyflwr gwael iawn. | | | | |
| 2. ATYNIAD - ofn troseddu | Dim tystiolaeth o fandaliaeth a'r gallu i gadw golwg yn briodol. | Ychydig o fandaliaeth. Diffyg ffryntiadau bywiog ac o ran y gallu i gadw golwg (e.e. tai yn bell o'r ffordd neu â'u cefnau at y stryd). | Fandaliaeth helaeth neu gyffredin. Tystiolaeth o weithgarwch troseddol/ gwrthgymdeithasol. Y llwybr teithio'n ynysig, dim gallu i gadw golwg (yn cynnwys lle mae'r llinellau gweld yn annigonol). | | | | |
| 3. ATYNIAD - sŵn traffig a llygredd | Nid yw sŵn traffig a llygredd yn effeithio ar yr atyniad. | Mae lle i wella o ran lefelau sŵn traffig a/neu lygredd | Llygredd traffig difrifol a/neu sŵn traffig difrifol | | | | |
| 4. ATYNIAD - arall | Rhai enghreifftiau o faterion 'eraill' sy'n ymwneud ag atyniad yw:<br>- Tystiolaeth nad oes goleuadau, neu eu bod yn ddiffygiol;<br>- Nodweddion dros dro sy'n effeithio ar atyniad llwybrau teithio (e.e. sachau sbwriel);<br>- Gormod o ddefnydd o ganllawiau neu folardiau.<br>Sgôr o 0-2 fel y bo'n briodol | | | | | | |
| 5. CYSUR - cyflwr | Y troetffyrdd yn llyfn ac mewn cyflwr da, dim peryglon baglu. | Nodwyd rhai diffygion (fel rhigoli neu glytio) neu ddiffygion bach (fel fflacs wedi cracio ond yn wastad). Nid yw'r diffygion yn debygol o achosi baglu neu anawsterau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, pramiau etc. Rhai mannau croesi ar droetffyrdd sy'n creu wyneb anwastad. | Palmentydd wedi suddo neu dreulio, neu glytio a rhigoli anwastad.<br><br>Nifer mawr o fannau croesi ar droetffyrdd sy'n creu wyneb anwastad. | | | | |
| 6. CYSUR - lled y droetffordd | Yn gallu cynnwys pob math o ddefnyddiwr heb gyfaddawdu rhwng defnyddwyr neu gerdded ar ffyrdd. Y droetffordd yn fwy na 2m o led gan mwyaf. | Lledau troetffyrdd rhwng 1.5m a 2m yn fras. Angen weithiau am gyfaddawdu rhwng defnyddwyr ac am gerdded ar ffyrdd. | Lledau troetffyrdd o lai na 1.5m (h.y. lled cadair olwyn safonol). Lled cyfyng y droetffordd yn gofyn i ddefnyddwyr gyfaddawdu'n aml, cerdded ar ffyrdd a/neu yn arwain at orddefnydd/oedi. | | | | |
| 7. CYSUR - lled ar groesfannau croesgam/ynysoedd traffig/ynysoedd croesi | Yn gallu cynnwys pob math o ddefnyddiwr heb gyfaddawdu rhwng defnyddwyr neu gerdded ar ffyrdd. Y droetffordd yn fwy na 2m o led gan mwyaf er mwyn cynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn. | Lledau rhwng 1.5m a 2m yn fras. Angen weithiau am gyfaddawdu rhwng defnyddwyr ac am gerdded ar ffyrdd. | Lledau croesfannau o lai na 1.5m (h.y. lled cadair olwyn safonol). Lled cyfyng y droetffordd yn gofyn i ddefnyddwyr gyfaddawdu'n aml, cerdded ar ffyrdd a/neu yn arwain at orddefnydd/oedi. | | | | |
| 8. CYSUR - parcio ar droetffyrdd | Dim enghreifftiau o gerbydau wedi'u parcio ar droetffyrdd wedi'u nodi. Gofod clirio o fwy na 2m gan mwyaf rhwng rhwystrau parhaol. | Gofodau clirio rhwng 1.5m a 2m yn fras. Angen weithiau am gyfaddawdu rhwng defnyddwyr ac am gerdded ar ffyrdd oherwydd parcio ar y droetffordd. Parcio ar droetffyrdd yn achosi rhywfaint o wyro oddi wrth lwybrau llygad. | Gofodau clirio o lai na 1.5m. Parcio ar droetffyrdd yn gofyn i ddefnyddwyr gyfaddawdu'n aml, cerdded ar ffyrdd a/neu yn arwain at orddefnydd/oedi. Parcio ar droetffyrdd yn achosi gwyro sylweddol oddi wrth lwybrau llygad. | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9. CYSUR<br>- graddiant | Nid oes llethrau ar y droetffordd. | Mae llethrau arnynt ond nid yw'r graddiannau'n fwy nag 8 y cant (1 mewn 12). | Graddiannau o fwy nag 8 y cant (1 mewn 12). | | | | |
| 10.CYSUR<br>- arall | Rhai enghreifftiau o faterion 'eraill' sy'n ymwneud â chysur yw:<br>- Rhwystrau dros dro yn cyfyngu'r gofod clirio i gerddwyr (e.e. gatiau tramwyfeydd wedi'u hagor dros y droetffordd);<br>- Rhwystrau/gatiau yn cyfyngu mynediad;<br>- Cysgodfannau bysiau yn cyfyngu gofod clirio;<br>- Troetffyrdd wedi'u draenio'n wael yn arwain at broblemau amlwg o ran pyllau dŵr/wynebau llithrig.<br>Sgôr o 0-2 fel y bo'n briodol | | | | | | |
| 11.UNIONGYRCHEDD<br>- darparu troetffyrdd | Troetffyrdd wedi'u darparu ar gyfer llwybrau llygad cerddwyr (e.e. yn gyfagos i'r ffordd). | Lle i wella'r ddarpariaeth o droetffyrdd er mwyn darparu'n well ar gyfer llwybrau llygad cerddwyr. | Nid yw troetffyrdd wedi'u darparu ar gyfer llwybrau llygad cerddwyr. | | | | |
| 12.UNIONGYRCHEDD<br>- lleoliad croesfannau mewn perthynas â llwybrau llygad | Croesfannau sy'n dilyn llwybrau llygad. | Croesfannau sy'n dargyfeirio cerddwyr yn rhannol oddi wrth lwybrau llygad. | Mae'r croesfannau'n gwyro'n sylweddol oddi wrth lwybrau llygad. | | | | |
| 13.UNIONGYRCHEDD<br>- bylchau mewn traffig (lle nad oes croesfannau a reolir neu os oes tebygolrwydd o groesi y tu allan i groesfannau a reolir) | Gallu croesi'r ffordd yn rhwydd, yn uniongyrchol, ac yn gyfforddus a heb oedi (< 5 eiliad ar gyfartaledd). | Gallu croesi'r ffordd yn uniongyrchol, ond rhywfaint o oedi'n gysylltiedig (hyd at 15 eiliad ar gyfartaledd). | Oedi sylweddol yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â chroesi'r ffordd (>15 eiliad ar gyfartaledd). | | | | |
| 14.UNIONGYRCHEDD<br>- effaith croesfannau a reolir ar amseroedd siwrneiau | Y croesfannau'n rhai pelican/pâl neu sebra gydag un cyfnod croesi. | Y croesfannau'n groesgam ond nid ydynt yn ychwanegu'n sylweddol at amseroedd siwrneiau.<br>Yn annhebygol o aros >5 eiliad ar ynys groesi. | Croesfannau croesgam yn ychwanegu'n sylweddol at amseroedd siwrneiau.<br>Cerddwyr yn debygol o aros >10 eiliad ar ynys groesi. | | | | |
| 15. UNIONGYRCHEDD<br>- cyfnod y dyn gwyrdd | Cyfnod y dyn gwyrdd yn ddigon hir i groesi'n gyfforddus. | Byddai cyfnod hirach ar gyfer y dyn gwyrdd yn fanteisiol i gerddwyr ond nid yw'r cyfnod presennol yn debygol o atal defnyddwyr. | Ni fyddai cyfnod y dyn gwyrdd yn rhoi digon o amser i groesi'n gyfforddus i ddefnyddwyr agored i niwed. | | | | |
| 16.UNIONGYRCHEDD<br>- arall | Rhai enghreifftiau o faterion 'eraill' sy'n ymwneud ag uniongyrchedd yw:<br>- Llwybrau teithio yn ôl ac ymlaen i safleoedd bysiau heb eu cynnwys;<br>- Grisiau sy'n cyfyngu mynediad gan yr holl ddefnyddwyr;<br>- Patrwm llwybrau sy'n drysu cerddwyr gan achosi problemau i ddefnyddwyr o ran gwahanu ardaloedd o boptu'r ffordd.<br>Sgôr o 0-2 fel y bo'n briodol | | | | | | |
| 17.DIOGELWCH<br>- llif traffig* | Llif traffig isel, neu mae cerddwyr yn gallu cadw draw o lifau traffig cymedrol. | Llif y traffig yn gymedrol a'r cerddwyr yn agos. | Llif traffig uchel, ac nid yw cerddwyr yn gallu cadw draw o draffig. | | | | |
| 18.DIOGELWCH<br>- cyflymder traffig | Cyflymderau traffig isel, neu mae cerddwyr yn gallu cadw draw o gyflymderau traffig cymedrol. | Cyflymderau'r traffig yn gymedrol a'r cerddwyr yn agos. | Cyflymderau traffig uchel, ac nid yw cerddwyr yn gallu cadw draw o draffig. | | | | |
| 19.DIOGELWCH<br>- gwelededd | Gwelededd da i'r holl ddefnyddwyr. | Mae rhywfaint o le i wella gwelededd ond mae'n annhebygol o arwain at wrthdrawiadau. | Gwelededd gwael, yn debygol o arwain at wrthdrawiadau. | | | | |
| 20. CYDLYNIANT<br>- cyrbau cyfwyneb a phalmant botymog | Darpariaeth ddigonol o gyrbau cyfwyneb a phalmentydd botymog. | Cyrbau cyfwyneb a phalmentydd botymog wedi'u darparu ond nid at y safonau presennol. | Cyrbau cyfwyneb a phalmentydd botymog yn absennol neu'n anghywir. | | | | |
| CYDLYNIANT | Arwyddion - Dylid nodi presenoldeb ac ansawdd arwyddion y llwybr teithio (nid oes angen rhoi sgôr am y ffactor hwn) | | | | | | |
| | | | **Cyfanswm y Sgôr** | **0** | | | **0** |

* Diffiniad o lifau wedi'i seilio ar yr amrediad trothwyon cymedrol (600 - 1200 cerbyd/awr) yn Ffigur 3.2 - Trothwyon ar gyfer Pennu Problemau ar dudalen 65 o Guidelines for Developing Urban Transport Strategies (IHT).
Llif traffig isel = <600 cerbyd/awr; Llif traffig cymedrol = 600-1200 cerbyd/awr; Llif traffig uchel = >1200 cerbyd/awr